

Spencer ECA

Proffil y Cwmni

Sefydlwyd Spencer ECA ym 1991, gan fasnachu ar y cychwyn dan yr enw Spencer Environmental Care and Construction, ond mae wedi esblygu dros y blynyddoedd i fod yn un o'r cwmnïau uchaf eu parch yn y sectorau gwaith tir a chynnal a chadw tir, gan sicrhau enw da sydd wedi arwain at weithio gyda llawer o gwmnïau rhyngwladol. Ar hyn o bryd, mae Spencer ECA yn gweithredu o dri lleoliad strategol yng Nghymru: Llandysul, y Drenewydd ac Abertawe. Mae Spencer ECA yn ymgymryd ag ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys pob agwedd ar reolaeth amgylcheddol a chymorth i'r diwydiant adeiladu, yn amrywio o glirio safleoedd cyn dechrau prosiectau adeiladu i osodiadau pibellau a cheblau. Mae Spencer ECA yn mabwysiadu polisiau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch cadarn, gan leihau cymaint â phosibl y risg i bobl ac effaith ôl troed ecolegol y cwmni. O ganlyniad, defnyddiant adnoddau cynaliadwy lle bynnag y bo'n bosibl.



Cydweithio â BEACON

Mae Spencer ECA bob amser yn ystyried cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol eu nwyddau a'u gwasanaethau ac oherwydd bod eu hadran biomas yn cynyddu, roeddent yn awyddus i fynd ar drywydd hyn ymhellach. Pan aeth BEACON atynt, nid oedd Spencer ECA wedi gweithio gyda phrifysgol cyn hynny ac roeddent yn awyddus i archwilio cysylltiadau o'r fath. Oherwydd eu bod yn ehangu eu marchnadoedd, roedd Jamie Jukes, y Rheolwr Gyfarwyddwr, yn awyddus i gynyddu lefel ei ymchwil a'i ddatblygiad yn y maes hwn.

Mae LCA yn ddull systematig o asesu'r effeithiau amgylcheddol sydd ynghlwm wrth bob cam yng nghylch oes cynnyrch - o'r crud i'r bedd. Bu Spencer ECA yn gweithio ochr yn ochr â BEACON i sefydlu effaith amgylcheddol cynhyrchu sglodion pren o fïomas sy'n deillio o goedwigoedd a chyflenwi hyn i gwsmeriaid yng Nghymru. Rhoddodd y cwmni sglodion pren i BEACON i'w dadansoddi a bu'r cwmni'n coladu data gyda chymorth tîm BEACON a chofnodion hanesyddol y cwmni.

“ Mae BEACON wedi amlygu manau lle y mae problemau yn ein cadwyn gyflenwi a'n galluogi ni i wneud newidiadau sydd wedi arbed amser ac arian i Spencer ECA. ”

Jamie Jukes - Rheolwr
Gyfarwyddwr

Mae cydweithio â BEACON wedi rhoi gwell dealltwriaeth i Spencer ECA o'u cadwyn gyflenwi, gan amlygu'r manau lle y mae problemau a galluogi'r cwmni i leihau'r angen am ail-drin y cynnyrch, sy'n arbed amser ac arian iddynt ac felly'n cynyddu proffidoldeb y rhan hon o'u busnes. Cafodd y cydweithio rhwng Spencer ECA a BEACON ei gyflawni gyda dadansoddwyr cylch oes BEACON a myfyriwr gradd Meistr ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef James Nash. Ers hyn, mae James wedi cael swydd amser llawn fel Rheolwr Biomas a Deunyddiau Adnewyddadwy'r cwmni ers mis Hydref 2013. Mae Spencer ECA wrthi'n cynnal trafodaethau gyda BEACON ynghylch dechrau cydweithrediad newydd yng ngwanwyn 2014, gan ganolbwyntio ar ran arall o'r cwmni.



Am fwy o wybodaeth: www.spencereca.com